

Dyma fersiwn hawdd ei dell o
'Gynllun Cyflawni Trafnidiaeth
Cenedlaethol 2022'



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Beth fyddwn ni'n ei wneud i wella trafnidiaeth dros y 5 mlynedd nesaf



Hawdd
ei Ddeall



Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Trafnidiaeth: beth mae'n ei olgu i ni?	4
Ein blaenoriaethau	5
Camau gweithredu	7
Camau nesaf	16
Am ragor o wybodaeth	17



Yn y ddogfen Hawdd ei Deall hon, mae geiriau anodd mewn **print trwm**. Rydym yn esbonio ystyr y geiriau hyn yn y frawddeg ar ôl iddynt gael eu defnyddio.



Mae rhai geiriau yn [las ac wedi'u tanlinellu](#). Dolenni yw'r rhain a fydd yn mynd â chi i wefan arall sy'n darparu rhagor o wybodaeth.

Cyflwyniad



Y llynedd ysgrifennodd Llywodraeth Cymru gynllun newydd i wella trafnidiaeth yng Nghymru.



Mae'r cynllun yn nodi'r holl bethau pwysig yr ydym am eu gwneud fel:

- Bod trafnidiaeth yn hawdd i'w defnyddio i bobl ym mhob rhan o Gymru.
- Ein bod yn defnyddio trafnidiaeth nad yw'n niweidio'r amgylchedd.



Mae'n rhy ddrud gwneud popeth yn y cynllun ar unwaith. Felly rydym wedi penderfynu ar beth ddylwn ei wneud gyntaf.



Mae'r wybodaeth Hawdd ei Deall hon yn ymwneud â'r hyn y byddwn yn ei wneud i wella trafnidiaeth dros y 5 mlynedd nesaf.

Trafnidiaeth: beth mae'n ei olgu i ni?



Trafnidiaeth yw sut mae pobl yn teithio o un lle i'r llall.



Caiff trafndiaeth ei defnyddio hefyd i symud pethau o gwmpas – pethau fel bwyd a pharseli, neu bethau mawr fel peiriannau.



Mae sawl math o drafnidiaeth, gan gynnwys:

- Cerdded a beicio.
- Trafnidiaeth gyhoeddus, fel bysiau a threnau.
- Tacsis a thrafnidiaeth gymunedol.
- Tryciau a faniau.
- Llongau ac awyrennau.

Ein blaenoriaethau



Ein blaenoriaethau yw'r pethau mwyaf pwysig yr ydym am eu gwneud i wella trafnidiaeth yng Nghymru. Mae gennym 3 blaenoriaeth:

1. **Dod â gwasanaethau yn agosach at ble mae pobl yn byw**



Rydym am i wasanaethau fel ysbytai, ysgolion a siopau fod yn agosach at ble mae pobl yn byw, fel bod llai o angen ar bobl i ddefnyddio'u ceir.



Rydym hefyd am ei gwneud hi'n haws i weithio gartref fel bod angen i lai o bobl deithio i wneud eu gwaith.

2. Defnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy



Rydym am symud pobl a phethau o gwmpas gan ddefnyddio **trafnidiaeth fwy cynaliadwy**.

Trafnidiaeth gynaliadwy yw pethau fel cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau sy'n gwneud llai o niwed i'r amgylchedd.



Mae trafnidiaeth gynaliadwy yn llai drud i'w rhedeg dros amser hir. Mae'n well ar gyfer pobl nawr ac yn y dyfodol.

3. Annog mwy o bobl i beidio â defnyddio'u ceir



Rydym am annog mwy o bobl i beidio â defnyddio'u ceir drwy wella trafnidiaeth gyhoeddus fel ei bod yn haws ac yn rhatach i'w defnyddio.



Rydym hefyd am annog mwy o bobl i gerdded neu feicio yn lle gyrru eu ceir.

Camau gweithredu



Camau gweithredu yw'r hyn a wnawn i sicrhau bod y blaenoriaethau yn cael eu cyflawni.

Dyma'r camau gweithredu y byddwn yn eu rhoi ar waith i gyflawni ein blaenoriaethau dros y 5 mlynedd nesaf:

1. Dod â gwasanaethau yn agosach at ble mae pobl yn byw

Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl weithio gartref, neu'n agos at ble maen nhw'n byw drwy:



- Ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i gysylltu â'r we ym mhob ardal yng Nghymru.



- Cynllunio gofodau cydweithio newydd i bobl weithio ynddyn nhw, mewn ardaloedd sy'n hawdd i'w cyrraedd.



- Cefnogi busnesu i helpu mwy o'u staff i weithio ar-lein.

Byddwn yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth a chynlounio rhai gwell yng Nghymru drwy:



- Gynllunio adeiladau newydd megis ysgolion, siopau ac ysbytai mewn ardaloedd sy'n agos at ble mae pobl yn byw.



- Gwneud yn siŵr bod adeiladau newydd yn hawdd i'w cyrraedd drwy lwybrau cerdded a beicio da a chysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus.



- Gwella llwybrau cerdded a beicio i'w defnyddio yn lle gyrru eu ceir.




- Sicrhau bod gwasanaethau trafnidiaeth yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud teithiau'n haws wrth gynllunio llwybrau trafnidiaeth newydd.

2. Defnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy

Byddwn yn anelu at ddefnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy i symud pobl a phethau o gwmpas drwy:



- Wario mwy o arian ar wahanol fathau o drafnidiaeth gynaliadwy, fel cerbydau sy'n achosi llai o lygredd a llwybrau gwell ar gyfer cerdded a beicio.



- Cyflawni targedau i leihau'r defnydd o drafnidiaeth nad yw'n gynaliadwy, fel ceir.



- Gwneud yn siŵr bod trafnidiaeth gyhoeddus yn fforddiadwy i'w defnyddio, ac yn addas ar gyfer pobl sydd ag anghenion gwahanol.



- Cefnogi gwasanaethau bysiau a gwneud newidiadau fel bod digon o fysiau yn rhedeg ar yr amserau cywir ar gyfer pobl ar draws Cymru.



- Newid y gyfraith ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat fel eu bod yn fwy diogel a theg, a bod cerbydau yn well i'r amgylchedd.



- Gweithio gyda Llywodraeth y DU i wella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru.



- Sefydlu Porth Rhydd sy'n defnyddio trafnidiaeth fwy cynaliadwy, lle gall busnesau brynu a gwerthu i wledydd eraill heb dalu cymaint o dreth.



- Darparu opsiynau ar gyfer teithiau gwell i bobl, er enghraifft:
 - Tocynnau sy'n gallu cael eu defnyddio ar wahanol fathau o drafnidiaeth.



- Gorsafoedd sy'n cysylltu bysiau a threnau.



- Cysylltu gwahanol fathau o ddulliau teithio gyda'i gilydd mewn i un system drafnidiaeth o'r enw 'Metro'. Byddai hyn yn cysylltu llwybrau cerdded a beicio â bysiau a threnau.



- Sefydlu lle newydd a fydd yn profi dyluniadau ac offer rheilffyrdd newydd. Bydd hyn yn helpu i greu swyddi newydd yng Nghymru.



- Sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch i bobl anabl ei defnyddio.



- Sicrhau bod mwy o bwyntiau gwefru o gwmpas Cymru ar gyfer ceir trydan sy'n well i'r amgylchedd.



- Edrych ar unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i adeiladu ffyrdd newydd i weld a oes opsiynau gwell - fel gwario arian i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn lle creu ffyrdd newydd ar gyfer mwy o geir.



- Ysgrifennu cynlluniau newydd ar gyfer:
 - Symud pethau o gwmpas ar drenau, loriau a faniau.




- Symud pethau o gwmpas ar longau, a'r porthladdoedd y maent yn eu defnyddio.



- Gwella llwybrau cerdded a beicio, a darparu mannau diogel i storio beiciau mewn gorsafoedd.

3. Annog mwy o bobl i beidio â defnyddio'u ceir



Byddwn ni'n darparu mwy o opsiynau i bobl i ddechrau defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio yn lle ceir drwy:



- Ddarparu mwy o gynlluniau rhannu ceir.



- Gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn rhatach a thecach i bawb ei defnyddio.



- Darparu mwy o fannau i hurio beiciau.



- Creu ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu parcio ar y palmant, fel eu bod yn well ar gyfer pobl sy'n cerdded.



- Newid y terfyn cyflymder i gerbydau er mwyn ei gwneud yn fwy diogel i gerdded a beicio.

Byddwn yn ei gwneud yn haws i bobl ddewis opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy drwy:



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn hygyrch i bobl sy'n siarad Cymraeg.



- Addysgu plant, pobl ifanc ac oedolion sut i fod yn ddiogel wrth gerdded a beicio.

Byddwn ni'n gwneud mwy o bobl yn ymwybodol ei bod yn well cerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus drwy:



- Addysgu plant a phobl ifanc mewn ysgolion.



- Cefnogi cwmnïau a sefydliadau sy'n annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy.



- Cynnal ymgyrchoedd sy'n annog pobl i beidio â defnyddio'u ceir.



- Gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy addas ar gyfer pobl ag anghenion gwahanol - fel gorsafoedd sy'n hygyrch ac sydd ag arwyddion clir da.



- Cynllunio i ddechrau codi tâl ar bobl am barcio ceir a defnyddio ffyrdd.

Camau nesaf



Byddwn yn gwirio'r cynllun hwn dros y 5 mlynedd nesaf.


Y Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth Cenedlaethol (NTPB)



Mae'r Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth Cenedlaethol yn bwyllgor sy'n cynnwys pobl o'r Llywodraeth a llawer o sefydliadau eraill. Maen nhw'n gwirio bod trafnidiaeth yng Nghymru'n gweithio'n iawn.



Byddant yn gwirio sut ydym yn cyflawni'r pethau yn y cynllun hwn. Byddant yn rhoi adborth i ni.



Byddant yn gwirio i weld a yw'r cynllun yn gweithio ac a oes angen newid unrhyw beth.

Am ragor o wybodaeth




Gallwch edrych ar ein gwefan yma:

www.llyw.cymru



Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni:

- Drwy'r post:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



- Dros y ffôn: 0300 0604400



- Drwy e-bost: customerhelp@llyw.cymru

Cynhyrchwyd yr wybodaeth Hawdd Ei Deall hon gan easy-read-online.co.uk